**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Dros Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun Ddydd Mercher 14eg Gorffennaf 2004 am 10.00am

**YN BRESENNOL**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr M M Jones (Cadeirydd) R E Barton (sylwebydd), G C Evans, K N Hawkins, N Hugh Jones, C L Hughes, G A Jones, H Jones (sylwebydd) a G J Pickering

**Yn Cynrychioli Cydbwyllgor Trafod Athrawon Sir Ddinbych**

I Barros-Curtis, J Hannam a M B Lloyd

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol**

T Bryer, M Colbert, H Ellis, M Evans, S Harris, Parch J Owen a P Speirs

**HEFYD YN BRESENNOL**

Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, Uwch Swyddog Addysg (Cynradd) a Swyddog Gweinyddol (K E Jones)

**CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM EU HABSENOLDEB ODDI WRTH**

Parch P J Collinson, Parch Athro L J Francis a'r Cynghorydd D Owens

Cafwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb hefyd oddi wrth Sioned Bowen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes ac Ieuan Lloyd Roberts, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg.

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrdod tawel.

**CROESO**

Manteisiodd Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu aelodau a swyddogion i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i'r cynghorwyr sir newydd a oedd yn mynychu eu cyfarfod SACRE cyntaf. Cyfeiriodd hefyd at waith pwysig SACRE ac at gyfraniad gwerthfawr ei aelodau o bob grwp sy'n cael ei gynrychioli ar y pwyllgor.

**21 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26ain Chwefror 2004 (a rannwyd o'r blaen) ac a gafodd eu gymeradwyo gan y Cyngor Sir ar 18fed Mai 2004.

Eglurodd y Parch J Owen ei fod wedi cychwyn ar ei daith i'r cyfarfod SACRE diwethaf ond iddo gael ei rwystro gan dywydd drwg a'i bod yn rhy hwyr i gyflwyno ei ymddiheuriadau am absenoldeb yr adeg hynny.

**Materion yn Codi**

Tudalen 3 - Eitem Rhif 1030 Cofnodion - Cyfeiriodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol at Adroddiad Blynyddol SACRE a rannwyd yn y cyfarfod diwethaf a dywedodd iddo, gyda'r Cadeirydd, y Cynghorydd M M Jones a Mrs M B Lloyd, gymryd rhan yn y broses ymgynghorol gydag ACCAC ar y canllawiau newydd ar gyfer adroddiadau blynyddol SACRE. Cadarnhaodd y byddant yn ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar ran SACRE Sir Ddinbych.

Tudalen 6 - Eitem Rhif 1034 Manyleb Bagloriaeth Cymru - Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ddiweddariad i'r aelodau ar y cynnydd ers y cyfarfod diwethaf gan ddweud fod

cynrychiolaeth o WASACRE a NAPfRE wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru i drafod y mater. Roedd yn bleser ganddo adrodd yn ôl ar drafodaeth bositif pan gytunwyd (1) anfon llythyr at bob ysgol sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot cyfredol a'r ail gynllun peilot i ailddatgan yr angen i ddarparu Addysg Grefyddol er gwaethaf dilyn y fagloriaeth, (2) wrth adolygu'r fanyleb yn dilyn y peilots, gosod datganiad yn y cyflwyniad i'w gwneud yn glir bod rhaid i ysgolion ddarparu Addysg Grefyddol fel rhan o'u gofynion statudol, a (3) bydd WASACRE a NAPfRE yn ffurfio rhai canllawiau ar gyfer SACREau er mwyn sicrhau bod y Maes Llafur a Gytunwyd yn cysylltu gyda Bagloriaeth Cymru.

Tudalen 10 – Eitem Rhif 1037 – Enwebu cynrychiolwyr i'w hethol i bwyllgor gwaith WASACRE – Dywedodd Mrs M B Lloyd fod y Cynghorydd A Jones o Wynedd wedi tynnu nôl a bod yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wedi'i benodi'n Is Gadeirydd WASACRE. Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ar ei benodiad. Roedd yr etholiadau ar gyfer yr Aelodau Gweithredol yn ddi wrthwynebiad a Chadeirydd SACRE, y Cynghorydd Morfudd Jones oedd un o'r rhai a benodwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

Ar gais y Cadeirydd, ac er budd yr aelodau newydd, eglurodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gyfansoddiad SACRE, y tri grwp cynrychioliadol a'r hawliau pleidleisio ar y pwyllgor. Rhoddodd hefyd amlinelliad cryno o brif gyfrifoldebau cyfreithiol SACRE gan gynnwys monitro perfformiad a safonau Addysg Grefyddol a Chyd Addoli, cynghori'r Awdurdod Addysg lleol ar faterion ynghylch Addysg Grefyddol a Chyd Addoli a chynhyrchu adroddiad blynyddol o'i waith.

***PENDERFYNWYD** derbyn y cofnodion.*

## 22 FFRAMWAITH DRAFFT AR GYFER DYSGU PLANT YN Y CYFNOD SYLFAENOL

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad (a rannwyd o'r blaen) ar ganllawiau newydd ACCAC ar gyfer addysg plant 3 - 7 mlwydd oed yn seiliedig ar addysgwyr yn cynllunio gweithgareddau croes gwricwlaidd wedi'u seilio ar saith maes dysgu. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y goblygiadau ar gyfer y Maes Llafur a Gytunwyd a'r arweiniad efallai fyddai angen ei gynnig i ysgolion.

Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y byddai newidiadau pellach i'r ddogfen ddrafft ond nad oedd wedi gallu gwybodaeth gan ACCAC pryd y byddai'r fersiwn terfynol ar gael. Aeth â'r aelodau trwy'r ddogfen draft gan egluro'r trefniadau cyfredol ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar a'r pedwar cyfnod allweddol yn ogystal ag addysg ôl 16 y mae'n rhaid darparu Addysg Grefyddol ar eu cyfer mewn ysgolion. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyflwyno newidiadau i'r trefniadau presennol ac mae'n bwriadu ffurfio cyfnod i gynnwys blynyddoedd cynnar a Chyfnod Allweddol 1 gyda'r saith maes dysgu sydd yn y cyfnod sylfaenol:-

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol a Lles
- Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Dwyieithrwydd a Dealltwriaeth Aml Ddiwylliannol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

Dywedwyd wrth yr aelodau fod y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar presennol yn cael ei drosglwyddo gan ddefnyddio canlyniadau dysgu dymunol a oedd, gydag ychydig o eithriadau, yr un â'r saith maes dysgu. O safbwynt SACRE rhaid i'r aelodau ystyried ble byddai Addysg Grefyddol yn eistedd o fewn y fframwaith a awgrymir a gofynnwyd i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ystyried dau gynnig: (1) cynnwys Addysg Grefyddol fel wythfed lefel o ddysgu o ystyried ei natur statudol, neu (2) Gryfhau Addysg Grefyddol ym mhob un o'r saith maes dysgu.

Tanlinellodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol bwysigrwydd y cynigion ar gyfer SACRE, yn enwedig mewn perthynas â chyfrifoldebau'r pwyllgor wrth gynnig arweiniad i ysgolion pan fyddai'r fframwaith wedi'i sefydlu ar ôl ystyried y gofynion newydd. Yng ngoleuni hyn awgrymodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y dylai'r aelodau ystyried penodi gweithgor i roi arweiniad i'r Awdurdod Addysg Lleol gan gymryd i ystyriaeth y datblygiad newydd. Dywedodd yr Uwch Swyddog Addysg (Cynradd) fod un ysgol yn Sir Ddinbych yn rhan o'r cynllun peilot ac y gellid dysgu llawer o'r broses hwnnw a fyddai o fantais i'r gweithgor a sefydlir i ystyried y datblygiad newydd.

Cadarnhaodd Mrs J Hannam y byddai Ysgol Babanod Bodnant yn cymryd rhan yn y broses peilot ac y byddai argymhellion yr ysgol yn cael eu hanfon at y Cynulliad Cenedlaethol. Tanlinellodd hefyd yr angen i hyfforddi y rhai a fyddai'n gweithio mewn grwpiau chwarae nad oedd wedi eu hyfforddi'n athrawon.

Roedd yr Aelodau'n falch o'r cynigion i gryfhau Addysg Grefyddol mewn ysgolion ac am y cyfle i SACRE ddarparu arweiniad i ysgolion gyda dysgu a darparu Addysg Grefyddol ac ar ôl trafodaeth:-

***PENDERFYNWYD*** *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol sefydlu gweithgor i ystyried y gofynion newydd ar gyfer addysg plant 3 - 7 mlwydd oed a'r goblygiadau ar gyfer y Maes Llafur a Gytunwyd a'r arweiniad efallai y byddai angen ei gynnig i ysgolion.*

**23 CYFLWYNIAD "ADDYSG GREFYDDOL YN YSGOL GELLIFOR" GAN KATE DOWELL, CYDLYNYDD ADDYSG GREFYDDOL**

Cyflwynodd a chroesawodd y Cadeirydd Ms Kate Dowel, Cydlynydd Addysg Grefyddol yn Ysgol Gellifor i'r cyfarfod, a oedd yno i roi cyflwyniad ar y ddarpariaeth a chyflwyniad Addysg Grefyddol yn yr ysgol.

Aeth Ms Dowel ymlaen gyda chyflwyniad PowerPoint gyda phwyslais arbennig ar y meysydd canlynol:-

- dysgu Addysg Grefyddol yn y sector cynradd i adlewyrchu'r ffaith fod traddodiadau crefyddol Prydain Fawr yn bennaf yn Gristnogol, ond cymryd i ystyriaeth hefyd athrawiaeth ac ymarferion y prif grefyddau eraill sy'n cael eu cynrychioli ym Mhrydain;
- yr elfennau o ddysgu Addysg Grefyddol gan gynnwys gofynion cyffredin a sgiliau allweddol yn gyffredin i bob pwnc a'r agweddau a sgiliau sy'n benodol i Addysg Grefyddol;
- Addoli ar y cyd ar wahân i Addysg Grefyddol yn cynnwys datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ysbrydol yn arwain at ddisgyblion yn gwneud eu dewisiadau eu hunain mewn modd sensitif;
- darparu Addysg Grefyddol drwy'r ysgol gyfan gan gynnwys cynllunio, monitro, gwerthuso ac adolygu gydag athrawon dosbarth mewn gwahanol ddosbarthiadau trwy wahanol ddulliau dysgu gan gynnwys gweledol, clywedol a cinestheteg;
- y pethau ymarferol o ddarparu Addysg Grefyddol gan gynnwys perthynas bositif gyda'r Gweinidog a'r Rheithor lleol yn arwain at ddefnydd o gapel ac eglwys o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn; y Gweinidog a'r Rheithor yn arwain gwasanaethau ysgol o leiaf unwaith pob hanner tymor, Diolchgarwch, Gwasanaeth "Ystyr y Nadolig", Neges y Pasg a Bendith y Rhai sy'n Gadael;
- yr eglwys yw un o adnoddau gorau'r ysgol e.e. wrth 'fedyddio' doliau a thedis yng nghyfnod allweddol 1 ac yng nghyfnod allweddol 2 mae'r plant yn dysgu am y Cymun Bendigaid trwy chwarae rôl, a
- Cristnogaeth a ffydd eraill gan gynnwys Iddewiaeth, Hindwaeth a Bwdïaeth; dysgu o brofiad, cysylltiadau rhyngwladol i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o amrywiaeth a chyfrifoldebau athro / athrawes Addysg Grefyddol i ddysgu dealltwriaeth, sgiliau, gwybodaeth ac agweddau.

Wrth gloi diolchodd Ms Dowell i SACRE am eu harweiniad ar ddulliau o ddysgu'r maes llafur a gytunwyd ar gyfer Addysg Grefyddol a thanlinellodd yr angen i gyflwyno materion byd eang yn gryfach gan mai athroniaeth Ysgol Gellifor yw 'Un Byd'.

Mwynhaodd yr Aelodau'r cyflwyniad yn fawr iawn a manteisiwyd ar y cyfle i holi Ms Dowell ynghylch amryw o agweddau darpariaeth Addysg Grefyddol yn Ysgol Gellifor, gan gyfeirio'n arbennig at ddysgu gwahanol grefyddau'r byd a'r gwahaniaethau mewn Cristnogaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Dowell am ei chyflwyniad diddorol a llawn gwybodaeth a oedd wedi rhoi cipolwg ar y gwaith anhygoel a wneir yn Ysgol Gellifor wrth ddarparu Addysg Grefyddol. Adleisiodd yr Aelodau'r teimladau hynny a thalwyd teyrnged i ansawdd ac amrywiaeth y dulliau dysgu a ddefnyddir yn yr ysgol er mwyn sicrhau bod y pwnc yn berthnasol ac yn ddiddorol i'r disgyblion.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi cyflwyniad Ms Kate Dowell ar Addysg Grefyddol yn Ysgol Gellifor.*

Cadarnhaodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y byddai'n trefnu i Athro / Athrawes Ysgol Babanod ddarparu cyflwyniad tebyg i'r aelodau mewn cyfarfod o SACRE yn y dyfodol. Awgrymodd Mrs M B Lloyd y dylid gwahodd Athro / Athrawes Anghenion Addysg Arbennig i gyfarfod SACRE yn y dyfodol i egluro sut y dysgir Addysg Grefyddol i ddisgyblion gydag anghenion arbennig.

**24 CEFNOGAETH AC ADOLYGIAD PWNC – TREFNIADAU NEWYDD**

Adroddodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ar lafar ar y trefniadau newydd ar gyfer cefnogaeth ac arolygiad pwnc. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y newid mewn Archwilio Ysgolion er mwyn galluogi SACRE i gyflawni ei rôl monitro statudol.

Eglurodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y defnyddiai SACRE yn y gorffennol Adroddiadau Archwilio Ysgol fel y prif sail ar gyfer monitro safonau Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd mewn ysgolion. Fodd bynnag, bydd y newid yn y broses archwilio yn golygu y bydd llai o adroddiadau'n delio'n benodol gydag Addysg Grefyddol. Ar ôl trafod gyda'r Awdurdod Addysg Lleol cytunwyd i ganolbwyntio bob tymor ar Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd mewn ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo . Arbrofwyd gyda'r broses hon ym Mhrestatyn eleni. Mae'r dull hwn o bartneriaeth yn golygu y byddai'r ysgol a'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn gwerthuso eu prosesau ac yn ffurfio adroddiad ynghylch hynny. Cyflwynir yr adroddiadau i SACRE a daw'r adroddiad cyntaf i'r cyfarfod nesaf. Yng ngoleuni'r trefniadau newydd gellir cyflwyno darlun llawn ynghylch safonau a darpariaeth Addysg Grefyddol a byddai SACRE yn manteisio'n arw o'r trefniant hwn. Byddai'r gwerthusiadau'n galluogi hefyd rannu ymarfer gorau gydag ysgolion eraill.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod gwaith caled yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ac mewn ymateb i gwestiynau eglurodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ei rôl yn y broses gwerthuso a chadarnhaodd ei fod yn arolygydd cofrestredig gydag Estyn ond yn annibynnol yn ei rôl fel swyddog SACRE. Wrth gloi nododd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y byddai'r ysgolion yn cael gwahoddiad i arddangos rhywfaint o'u gwaith yn y cyfarfod nesaf.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r adroddiad llafar ar y trefniadau newydd ar gyfer cefnogaeth ac adolygiad pwnc .*

**25 CYDBWYLLGOR ADDYSG CYMRU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL AS/A2 - MANYLEB CYNNWYS**

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol lythyr (a rannwyd o'r blaen) oddi wrth WASACRE yn gofyn am sylwadau'r aelodau ar fanylion manylebau'r arholiad Astudiaethau Crefyddol AS / A2 (a rannwyd o'r blaen). Eglurodd fod cynrychiolydd o WASACRE wedi codi amheuon ynghylch y dewis ar y Testament Newydd ym manylebion Astudiaethau Crefyddol AS ac A2, yr oedd hi'n eu ystyried yn llawer trymach, yn nhermau cynnwys, na'r dewisiadau eraill ac ynghylch amwysedd yn y ffordd yr oedd yn cael ei ddiffinio. Am y rhesymau hynny credai fod llawer o fyfyrwyr yn troi eu cefnau ar astudio'r Testament Newydd ac yn ffafrio dewisiadau llai beichus. Dywedodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol fod Cydbwyllgor Addysg Cymru wedi ymateb i bryderon WASACRE gydag ychydig o fân newidiadau a oedd yn cael eu cyflwyno i ACCAC ac y gallai ateb rhai o'r materion a godwyd. Gofynnodd i'r aelodau ystyried dogfen y manylebion er mwyn ffurfio eu sylwadau eu hunain yn eu cylch.

Ar ôl ystyried manylion y manylebau cytunodd yr aelodau gyda sylwadau WASACRE gan eu bod yn teimlo fod gwahaniaeth sylweddol yng nghynnwys dewis y Testament Newydd a hefyd yn lefel y gofynion yn y cwestiynau. Cynigiodd Mrs M B Lloyd y dylid anfon llythyr wedi'i eirio'n gryf at Gydbwyllgor Addysg Cymru ar ran SACRE yn mynegi eu pryderon hwythau ynghylch cynnwys y manyleb yn unol â sylwadau WASACRE. Cytunai'r y Cynghorydd C L Hughes gyda hynny a chyfeiriodd at addysg ei ferch ei hunan fel enghraifft o hynny. Teimlai y dylai'r llythyr hefyd sôn bod rhai disgyblion wedi peidio â chymryd y pwnc ar ôl misoedd o waith caled oherwydd y gofynion gwrthgyferbyniol. Mynegodd y Cynghorydd N Hugh-Jones bryder ynghylch y bwlch rhwng Lefel TGAU a Lefel A os defnyddid safonau gwahanol. Gofynnodd am i'r mater yma hefyd gael ei gynnwys yn y llythyr. Cymeradwyodd y Cynghorydd R E Barton sylwadau'r aelodau ac awgrymodd y dylid ymgymryd â chyfweliadau gadael gyda'r disgyblion i gefnogi'r pwyntiau hyn. Felly:-

***PENDERFYNWYD** y dylai'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ysgrifennu at Gydbwyllgor Addysg Cymru ar ran SACRE yn mynegi eu pryderon ynghylch cynnwys y manyleb ar gyfer*

*Astudiaethau Crefyddol AS / A2 y Cydbwyllgor Addysg ynghyd â'r pwyntiau ychwanegol a godwyd gan aelodau y cyfeirir atynt uchod.*

**26 CYMDEITHAS SACRE CYMRU**

**(a) WASACRE – 5ed Mawrth, 2004 a gynhaliwyd yn Aberaeron**

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gofnodion cyfarfod WASACRE a gynhaliwyd ar 5ed Mawrth 2004 yn Aberaeron er gwybodaeth yr aelodau ac a adroddwyd arno ar lafar yng nghyfarfod diwethaf SACRE gan Mrs M B Lloyd.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi cofnodion cyfarfod WASACRE a gynhaliwyd ar 5ed Mawrth 2004.*

**(b) WASACRE – 23ain Mehefin, 2004 a gynhaliwyd yn Swyddfa'r Sir, Llangefni**

Cyflwynodd Mrs M B Lloyd adroddiad llafar ar y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 23ain Mehefin 2004 yn Swyddfa'r Sir, Llangefni fel a ganlyn:-

- mae ei chyfnod fel Cadeirydd WASACRE wedi dod i ben a'r swydd wedi'i basio ymlaen i'r cyn Is Gadeirydd y Tad Ieuan Wyn Jones. Yr Is Gadeirydd newydd yw Gavin Craigen a llongyfarchodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ar ei benodiad.

- cyflwyniad gan Susan Morrell, NAPfRE ynghylch Addysg Grefyddol ac Anghenion Arbennig, a

- gwaith ardderchog WASACRE ar y Cyfnod Sylfaenol, Bagloriaeth Cymru a'r cyfarfodydd gyda NAPfRE wrth sefydlu dau weithgor i gynhyrchu deunydd ar gyfer y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Lloyd am ei hadroddiad llafar a thalodd deyrnged iddi am eu holl waith caled ar WASACRE.

***PENDERFYNWYD** derbyn adroddiad llafar Mrs M B Lloyd.*

**27 PROFIAD UGANDA – CYFLWYNIAD GAN YR AROLYGYDD / YMGYNGHORYDD ADDYSG GREFYDDOL**

Cyflwynodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gyflwyniad PowerPoint ar ei ymweliad diweddar ag Uganda ym mis Mawrth 2004 a oedd yn rhannol mewn cysylltiad â gwaith ond hefyd trwy'r elusen *Christian Relief Uganda* ble, ynghyd ag athrawon eraill, roedd wedi ymweld ag ysgolion a chymunedau.

Gwnaed cysylltiadau gyda nifer o ysgolion penodol ble rhannwyd a thrafodwyd dulliau addysgiadol a strategaethau cymunedol. Roedd y prosiectau'n cynnwys dosbarthu anrhegion ac adnoddau a gafodd dderbyniad gwresog a graslon. Wrth gloi ei gyflwyniad canolbwyntiodd yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ar y canlyniadau a ddeilliai i ysgolion o'r profiad mawr hwn gan gynnwys: cyflwyniadau i ddosbarthiadau ynghylch y profiadau, cynhyrchu deunydd dysgu ac addysgu, rhannu nifer helaeth o ddarluniau graffig ar gyfer trafodaeth a meddwl.

Manteisiodd yr aelodau'r cyfle i holi'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ynghylch ei brofiadau yn Uganda, gan gyfeirio'n benodol at bwysigrwydd a pharhad y gwaith elusennol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am rannu'i brofiadau, y teimlai a fyddai'n llesol iawn, gyda'r aelodau.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r cyflwyniad gan yr Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol.*

Wrth gloi'r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd / Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, cyfieithydd y pwyllgor a Chlerc SACRE am eu gwaith caled a dymunodd egwyl braf iawn dros yr haf i'r athrawon.

Daeth y cyfarfod i ben am 12 hanner dydd.

********